# Apiau a Syniadau Trochi Ychwanegol

## AR Books

| | |
|---|---|
| **Enw** | **The Ghostkeeper's Journal and Field Guide** |
| **Awdur** | Japhet Asher |
| **Cyhoeddwr** | Carlton |
| **Ynglŷn â'r Llyfr** | Rydyn ni wedi bod yn chwilio am y llyfr gorau i blant ymgolli ynddo ac y gall y teulu cyfan ei fwynhau a chwarae gyda'i gilydd. The Ghostkeeper's Journal and Field Guide: An Augmented Reality Adventure gan Japhet Asher (Welbeck, 2018) yw'r nofel AR uwch gyntaf erioed. Drwy'r llyfr, mae darllenwyr yn ymuno â SPRUNG - y Society for the Pursuit of the Reputedly Undead, Namely Ghosts. Mae Agamemnon White - Gwarcheidwad Ysbrydion SPRUNG, plentyn rhyfeddol sydd wrth ei fodd â brechdanau tiwna - wedi mynd ar goll, a'r cyfan sydd ar ôl yw ei ddyddiadur. Gan ddefnyddio'r ap 'Ghost-o-Matic' cysylltiedig, mae tudalennau o'r dyddiadur yn dod yn fyw, gan ddatgelu gwybodaeth ychwanegol a phrofiad o ddal ysbrydion, lle rydych chi'n datrys posau a chasglu'r ysbrydion o'r nodiadau achos yn y llyfr - a bydd y cyfan yn eich helpu i ddatrys y dirgelwch a darganfod beth ddigwyddodd i Agamemnon. Mae The Ghostkeeper's Journal and Field Guide: An Augumented Reality Adventure yn cael ei argymell ar gyfer plant 9-14 oed. Mae rhagor o wybodaeth am y llyfr ar gael drwy wylio'r **trelar byr hwn**. |
| **Ynglŷn â'r awdur** | Mae Japhet Asher bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o adrodd straeon. Mae'n adnabyddus fel gwneuthurwr rhaglenni dogfen sydd wedi cael eu henwebu ar gyfer gwobr Academy Award ac fel awdur a chynhyrchydd gwaith animeiddio a enillodd wobr Emmy Award, gan gynnwys Liquid Television, cyfres arloesol a greodd ar gyfer MTV. Roedd yn gyfrifol am waith datblygu digidol ar gyfer sianeli plant y BBC am nifer o flynyddoedd, ac fe lansiodd amrywiaeth eang o gemau, apiau a sianeli YouTube.<br><br>Mae Japhet wrth ei fodd yn dod o hyd i ffyrdd newydd o adrodd straeon ac mae wedi bod yn arwain y gwaith o archwilio adrodd straeon ym myd realiti estynedig a realiti cymysg. Enillodd y llyfrau gydag apiau y mae wedi'u datblygu gan ddefnyddio AR y prif wobrau digidol ar gyfer 2018 yn Ffair Lyfrau Plant Bologna. Dewiswyd *The Ghostkeeper's Journal* i'w arddangos yng nghynhadledd fawreddog Future of Storytelling yn Efrog Newydd ac enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn Futurebook 2018. |

| | |
|---|---|
| **Manylion yr Ap** | Mae'r ap rhad ac am ddim hwn ar gael i unrhyw un sydd â ffôn clyfar neu gyfrifiadur llechen cydnaws (dyfeisiau Android gyda chamerâu sy'n wynebu ymlaen ac yn ôl ac sy'n defnyddio Android 4.0.3 ac uwch, a phroseswyr ARMv7 NEON. Dyfeisiau iOS sy'n rhedeg iOS 9.0 neu uwch, iPhone 5s neu uwch, iPad 4 neu uwch, iPod Touch 6ed Genhedlaeth neu uwch. Nid yw dyfeisiau INTEL ATOM yn gweithio).<br><br>'The Ghostkeeper's Journal and Field Guide' ac ap 'Ghost-o-Matic' © Polarity Reversal Ltd |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **The Ultimate Dinosaur Encyclopedia** |
| **Awdur** | Chris Barker |
| **Cyhoeddwr** | Welbeck Publishing |
| **Ynglŷn â'r Llyfr** | Fyddwch chi erioed wedi gweld llyfr dinosor fel hyn o'r blaen! Mae The Ultimate Dinosaur Encyclopedia yn fath hollol newydd o wyddoniadur, a ddatblygwyd ar y cyd â chelf a gwyddoniaeth 3D arloesol. Gan ddefnyddio ymchwil arloesol diweddar, mae Chris Barker, y paleontolegydd, yn ail-greu byd y cewri cynhanesyddol gyda delweddau ffotorealistig sy'n ymddangos yn fwy realistig nag unrhyw ddelweddau rydych chi wedi'u gweld o'r blaen.<br><br>Defnyddiwch yr ap AR rhad ac am ddim i weld y tudalennau, ac fe welwch ddeinosoriaid yn dod yn fyw gyda 3D syfrdanol. Yn ogystal â dysgu am eu hymddangosiad a'u hymddygiadau, mae'r ap yn gadael i chi eu gweld fel modelau maint cywir anhygoel. Mae gan rai tudalennau glipiau fideo hyd yn oed sy'n ymddangos fel petaen nhw'n chwarae ar y dudalen ei hun. Dyma'r peth agosaf at neidio i mewn i beiriant amser, a'r ffordd orau o gael bod yn agos at yr anifeiliaid anhygoel hyn.<br><br>Mae'r llyfr yn archwilio pob cyfnod o fywyd cynhanesyddol, gan ddechrau gyda dechreuad bywyd yng nghefnforoedd y byd, gan symud i'r<br><br>fertebratau cyntaf oedd yn byw ar y tir, ac ymlaen i deyrnasiad y deinosoriaid a thu hwnt. Mae'n seiliedig ar y wyddoniaeth fwyaf modern a dilys yn unig, ac mae rhai deinosoriaid cyfarwydd yn edrych yn hollol wahanol. Cewch weld y creaduriaid mawreddog hyn yn eu cynefin naturiol, deall eu tebygrwydd ag anifeiliaid modern, a dysgu popeth am y ffordd roedden nhw'n symud, yn bwyta, yn ymladd ac yn hela. |

| | |
|---|---|
| **About the Author** | Mae Chris Barker yn baleontolegydd, sydd â BSc a MRes mewn Paleofioleg a Phaleontoleg Fertebratau. Mae wedi cyfrannu at nifer o gyfeirlyfrau i blant ar ddeinosoriaid gyda llu o gyhoeddwyr. |
| **Manylion yr Ap** | Mae ap yn cyd-fynd â'r llyfr hwn, 'Ultimate Dinosaur Encyclopedia'. Mae'r ap hwn yn gydnaws â: iPhones neu iPads sy'n defnyddio iOS 11.3 ac uwch; iPhone SE ac uwch; iPad Pumed Genhedlaeth ac uwch; ac Android sy'n defnyddio 7.0 neu uwch, ac yn gweithio gyda ARCore v1.7 Google neu uwch. |

## Audio Editing

| **Enw** | **Voice Memos** | **Voice Recorder** |
|---|---|---|
| **Gwefan** | https://apps.apple.com/us/app/voice-memos/id1069512134 | |
| **Platfform/ Gofynion** | **Angen iOS neu iPadOS 10.0 neu ddiweddarach.** | (DS: Efallai y bydd gan yr ap enw ychydig yn wahanol yn dibynnu ar ba fath o ddyfais Android sydd gennych chi) |
| **Pris** | Am ddim | |
| **Disgrifiad** | Mae gan lawer o ffonau clyfar recordydd llais mewnol erbyn hyn. Gallwch chi ddefnyddio hwn ar gyfer recordio cyfweliadau, neu synau ar gyfer seinwedd i ychwanegu mwy at y profiad rydych chi'n ei greu.<br><br>Gall yr ap a'r dull o'i ddefnyddio amrywio yn dibynnu ar y math o ddyfais sydd gennych chi. | |

## Apiau AR

| **Enw** | **Blippbuilder** |
|---|---|
| **Gwefan** | https://www.blippar.com/build-ar |
| **Platfform/ Gofynion** | Ap ar y we |
| **Pris** | Am ddim i'w ddefnyddio a chyhoeddi (hyd at 100 golwg) |

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad** | Creu prosiect AR ar y we gydag adeiladwr syml – nid oes angen codio. Bydd BlippAR yn cynnal y profiad i chi, a gallwch edrych arno hyd at 100 o weithiau. Daw'r adeiladwr gyda rhai elfennau sydd wedi eu creu ymlaen llaw, ond gallwch chi lanlwytho eich rhai eich hun hefyd. Yna gall defnyddwyr sganio'r cod QR neu gael mynediad drwy'r URL a phrofi creadigaeth AR eu hunain.<br><br>Gallwch chi greu prosiect AR a fydd yn ymddangos o amgylch y defnyddiwr, ar farciwr printiedig, neu ar unrhyw arwyneb gwastad.<br><br>Gallwch chi greu prosiectau AR hefyd ar gyfer yr ap Blippar.<br><br>Mae'r **Dogfennau Cymorth** yn cynnwys canllawiau ar greu cynnwys AR gan ddefnyddio Blippbuilder. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Super You** |
| **Gwefan** | https://apps.apple.com/us/app/super-you/id1511177538 |
| **Platfform/ Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 13.0 neu ddiweddarach.<br><br>Yn gydnaws ag iPhone XS, XR, 11, 11 Pro, 11 Pro Max, SE (2020) ac iPad Pro (2019 trydedd genhedlaeth). |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Gallwch chi drawsnewid eich ffrind yn AR. Mae Super You yn arbrawf celfyddydau gwisgoedd AR – Pwyntiwch eich camera at eich ffrind gwych er mwyn ei drawsnewid a gallwch chi sweipio er mwyn newid ei wisg. Mae dewis sylweddol o wisgoedd gwych ar gael, ac mae'n samplu lliwiau'r dillad rydych chi'n eu gwisgo hefyd.<br><br>Gan ddefnyddio'r dechnoleg olrhain corff ddiweddaraf, gallwch chi ffilmio eich Super You yn mynd am dro yn y parc, yn dawnsio yn y gegin neu'n ymlacio ar y soffa. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Candide Labels - Plant ID** |
| **Gwefan** | https://candide.com/US |

| | |
|---|---|
| **Platfform/ Gofynion** | **iOS**<br>Yn gofyn am iOS neu iPadOS 13.0 neu ddiweddarach.<br><br>**Android**<br>Angen Android 5.0 ac uwch. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Mae Candide Labels yn defnyddio camera eich ffôn i adnabod yr holl blanhigion gwych o'ch cwmpas chi. Ac unwaith y bydd planhigyn yn cyfateb, bydd yn ychwanegu label AR i'r planhigyn, a fydd yn dal yno i chi pan fyddwch chi'n dychwelyd.<br><br>Bydd y label yn dweud wrthych chi sut i ofalu am eich planhigyn, yn ogystal â'r problemau cyffredin i gadw llygad allan amdanyn nhw – felly bydd yr wybodaeth arddio sydd ei hangen arnoch ar flaenau eich bysedd bob amser. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Night Sky** |
| **Gwefan** | https://icandiapps.com/night-sky-4/ |
| **Gofynion Technegol** | **Hardware**<br>• iPad Air 2 / iPad mini 4 neu uwch<br>• iPhone (iPhone 6s neu uwch)<br>• iPod touch (7fed Genhedlaeth neu uwch)<br>• Apple Watch (Cyfres 2 neu uwch ar gyfer graddnodi awtomatig)<br>• Apple TV (3ydd Genhedlaeth neu uwch)<br>• Mac (rhedeg macOS 10.5 neu uwch)<br>• AirPods (AirPods Pro neu AirPods Max)<br><br>**Software**<br>Mae Night Sky X wedi'i gynllunio ar gyfer iOS/PadOS 15 a watchOS 8.<br>• Mae'n gydnaws â iOS 13.0 neu ddiweddarach<br>• watchOS 5 neu ddiweddarach<br>• tvOS 13 neu ddiweddarach<br>• macOS 10.5 neu uwch |

| | |
|---|---|
| | **Cysylltiad â'r Rhyngrwyd**<br><br>Ar ôl y gosod a sefydlu cychwynnool, nid yw swyddogaethau craidd Night Sky angen cysylltiad wi-fi neu gysylltiad data symudol.<br><br>Mae nodweddion iPhone Widget, Stargazing Conditions, Night Sky Tonight a Night Sky News angen cysylltiad â'r Rhyngrwyd i weithredu. Caiff data lloeren ei ddiweddaru yn y cefndir o bryd i'w gilydd ac mae angen cysylltiad â'r rhyngrwyd ar gyfer hyn hefyd. Gellir parhau i ddefnyddio Night Sky heb gysylltiad â'r rhyngrwyd ond bydd yn gweithredu i raddau llai. |
| **Pris** | Am ddim (Gellir talu am fwy o nodweddion yn yr ap) |
| **Disgrifiad** | Mae Night Sky yn blanetariwm personol pwerus, sy'n eich galluogi i adnabod sêr, planedau a lloerennau yn gyflym drwy eich ffôn neu ddyfais.<br><br>Gan ddefnyddio AR Sky Blending, gallwch chi weld Sky View dros eich golygfa go iawn, a bydd yn eich helpu i adnabod pa sêr y gallech chi fod yn eu gweld yn yr awyr.<br><br>Mae nodweddion ychwanegol ar gael gyda thanysgrifiad premiwm, er enghraifft AR Grand Orrery i ddod â'r Systemau Solar i mewn i'r ystafell gan ddefnyddio realiti estynedig.<br><br>Mae'r Ap hefyd yn dod gyda mynediad i'r **Night Sky Education Centre**, gyda syniadau am weithgaredd o ran sut i'w ddefnyddio gyda'ch grŵp. |
| **Hygyrchedd** | Wrth ddefnyddio Sky View, gallwch chi chwyddo unrhyw labeli testun i'w gwneud yn haws i'w darllen. Mae Night Sky yn cynnwys cymorth VoiceOver (troslais) llawn hefyd. Gall defnyddwyr sydd â VoiceOver wedi'i alluogi godi eu dyfais, a bydd Night Sky yn darllen y gwrthrychau wybrennol iddynt. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Waypoint EDU** |
| **Gwefan** | https://www.waypointedu.com/ |

| | |
|---|---|
| **Platfform/Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 11.0 neu ddiweddarach. Yn gweithio ar iPhone, iPad neu iPod Touch.<br><br>Mae'r ap angen dyfais gydag adnoddau GPS+Cellular i weithio. |
| **Pris** | Am ddim. Mae modd prynu pethau yn yr ap |
| **Disgrifiad** | Helfa Sborion Addysgol gyda thro AR! Mae Waypoint EDU wedi'i gynllunio ar gyfer geogelcio ar raddfa fach. Mae athrawon (neu rieni) yn defnyddio Waypoint EDU i greu adnodd geogelcio ("Helfeydd") difyr gyda realiti estynedig. Mae sefydlu Helfa yn syml iawn - rhoi ychydig o fanylion, gwneud llun o Faes Chwarae yn uniongyrchol ar y map, a rhoi cwestiynau cwis. Mae'n cynnwys dwy Helfa Swyddogol. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer helfeydd dan do ac yn yr awyr agored. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Boulevard AR** |
| **Gwefan** | https://www.blvrd.com/ |
| **Platfform/Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 11.0 neu ddiweddarach. Gweithio ar iPhone, iPad neu iPod Touch. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Yn dod â'r straeon dynol y tu ôl i weithiau celf enwog yn fyw.<br><br>Nid yw'r broses o archwilio gweithiau celf erioed wedi bod yn un mor fanwl a phersonol. Mae Boulevard AR yn dod â chelf atoch chi, ble bynnag yr ydych chi, ac mae bellach yn cynnwys tri phaentiad pwysig o gasgliad y National Portrait Gallery yn Llundain. Mae curaduron o'r National Portrait Gallery yn adrodd y profiadau trochi ac yn tywys defnyddwyr drwy agweddau dethol. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **ARrrrrgh** |
| **Gwefan** | https://www.warpinmedia.com/cases/arrrrrgh/ |
| **Platfform/Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 11.0 neu ddiweddarach. Yn gweithio ar iPhone, iPad neu iPod Touch. |

| | |
|---|---|
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Gêm Chwarae Cuddio fodern sy'n trawsnewid eich ystafell fyw, eich gardd neu ystafell y plant yn dir hela i chwiliwr trysor rhithwir. Mae parot yn rhan o'r gêm sy'n cynorthwyo chwaraewyr ar eu taith ac mae map trysor yn eu harwain i ennill clod. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Pokémon Go** |
| **Gwefan** | https://pokemongolive.com/ |
| **Platfform/Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 13.0 neu ddiweddarach. Rhedeg ar iPhone, iPad neu iPod touch.<br><br>**Android**<br>Angen Android 6.0 ac uwch. |
| **Pris** | Am ddim. Mae modd prynu pethau yn yr ap. |
| **Disgrifiad** | Ymunwch â Hyfforddwyr ledled y byd sy'n darganfod Pokémon wrth iddyn nhw archwilio'r byd o'u cwmpas.<br><br>Mae Pokémon Go yn cynnwys modd AR+, lle mae Pokémon yn ymddangos wedi'i angori i'ch amgylchedd byd go iawn o'ch blaen chi.<br><br>Bydd angen i chi greu cyfrif i chwarae Pokémon Go. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Pikmin Bloom** |
| **Gwefan** | https://pikminbloom.com/ |
| **Platfform/Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 12.0 neu ddiweddarach. Gweithio ar iPhone, iPad neu iPod touch.<br><br>**Android**<br>Angen Android 5.0 ac uwch. |
| **Pris** | Am ddim. Mae modd prynu pethau yn yr ap |
| **Disgrifiad** | Gallwch chi dyfu eich pikmin eich hun, gwneud i flodau flodeuo, a chadw golwg ar eich atgofion blaenorol, hyn i gyd drwy'r weithred syml o gerdded. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Soundscape Explorer** |
| **Gwefan** | https://www.bbc.co.uk/taster/pilots/soundscape-explorer |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Ymunodd Adran Ymchwil a Datblygu'r BBC â'r prosiect Soundscapes for Wellbeing ac Archif y BBC i ymchwilio i'r ffordd y gall gwrando ar seinweddau naturiol wella ein hiechyd meddwl a'n cysylltiad â natur.<br>Gellir archwilio pum tirwedd wahanol sy'n cymysgu delweddau 360 gradd gyda sain 3D trochi.<br>Gallwch chi **greu eich seinwedd eich hun** hefyd gan ddefnyddio synau o **Gymysgydd Effeithiau Sain y BBC**. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Civilisations AR** |
| **Gwefan** | https://www.bbc.co.uk/taster/pilots/civilisations-ar |
| **Platfform/Gofynion** | **iOS**<br>Angen iOS neu iPadOS 11.0 neu ddiweddarach. Gweithio ar iPhone, iPad neu iPod touch.<br>**Android**<br>Angen Android 7.0 ac uwch. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Cydweithrediad rhwng BBC Arts, Adran Ymchwil a Datblygu'r BBC, Nexus Studios a thua 30 o amgueddfeydd ac orielau o bob cwr o'r DU i'ch helpu i ddarganfod trysorau hanes. Drwy'r ap gallwch chi ddefnyddio AR i ddarganfod cyfrinachau'r hen Aifft, datgelu haenau cudd o dan gampweithiau'r Dadeni a dysgu mwy am darddiad y trysorau diwylliannol hyn a'r bobl a'u gwnaeth. |

# Clustffonau VR

**Clustffonau VR gan Meta yw Oculus Quest 2, sydd ar gael am £299. Maen nhw'n glustffonau cynhwysfawr gyda'r sain wedi'i gynnwys ynddyn nhw a daw dau reolydd cyffwrdd gyda'r clustffonau. Nid oes angen unrhyw ddyfais arall i'w defnyddio (er efallai y bydd angen i chi gysylltu â chyfrifiadur i gael rhai o'r profiadau isod). Mae llyfrgell o gemau ar gael i'w gosod yn uniongyrchol ar y ddyfais (mae angen bod yn ymwybodol y gallai fod angen i chi dalu am rai o'r rhain). I ddefnyddio'r Oculus Quest 2, bydd angen i chi greu cyfrif Facebook.**

Os yw Clustffonau VR y tu hwnt i'ch cyllideb, gallech chi ystyried clustffonau VR Llaw sy'n gweithio gyda ffôn clyfar, fel 'Google Cardboard'. Mae cyfarwyddiadau ar-lein ar gael hefyd ar sut i wneud eich gogls VR Llaw eich hun gan ddefnyddio cardbord a lens deuamgrwm.

## Apiau VR

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Sianel Virtual Reality Youtube** |
| **Gwefan** | https://www.youtube.com/360/playlists |
| **Platfform/ Gofynion** | Unrhyw glustffonau VR, gan gynnwys Google Cardboard.<br><br>Gellir gwylio'r profiadau VR ar eich ffôn hefyd heb unrhyw glustffonau. |
| **Disgrifiad** | Mae gan y sianel Youtube swyddogol hon restrau chwarae gyda channoedd o fideos VR 180- a 360- gradd i'w gwylio a'u mwynhau, a grëwyd gan ddefnyddwyr o bob cwr o'r byd – a'r **International Space Station**. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Tilt Brush** |
| **Gwefan** | https://www.tiltbrush.com/ |
| **Platfform/ Gofynion** | Ar gael ar gyfer VIVE, Oculus, Oculus Quest, Windows Mixed Reality, Valve Index, PlayStation VR |
| **Pris** | £14.99 |
| **Disgrifiad** | Mae Tilt Brush yn gadael i chi baentio mewn gofod 3D gyda realiti rhithwir. Yr ystafell ei hun yw eich cynfas. Eich palet yw eich dychymyg. Mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Earth VR** |
| **Gwefan** | https://arvr.google.com/earth/ |
| **Platfform/ Gofynion** | Ar gael ar gyfer VIVE neu Oculus Rift. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Archwiliwch y byd o safbwyntiau cwbl newydd. Cewch grwydro strydoedd Tokyo, esgyn dros Yosemite, neu wibio'n rhithwir ar hyd a lled y byd. |



| | |
|---|---|
| **Enw** | **Museum of Other Realities** |
| **Gwefan** | https://www.museumor.com/ |
| **Platfform/ Gofynion** | Angen Clustffonau VR a chyfrifiadur cydnaws. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Mae'r Museum of Other Realities (MOR) yn arddangosfa gelf gymdeithasol VR sy'n trochi, ac yn lle i gysylltu ag eraill, a rhannu a phrofi celfyddyd realiti rhithwir gyda nhw. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **InMind2** |
| **Gwefan** | https://luden.io/inmind2/ |
| **Platfform/ Gofynion** | Angen VR Valve Index, HTC Vive neu Oculus Rift. |
| **Pris** | £3.99 |
| **Disgrifiad** | Mae InMind 2 yn gêm antur sy'n rhoi pwyslais ar y cemeg y tu ôl i emosiwn dynol. Drwy'r profiad VR arloesol a thrawiadol hwn, byddwch yn cymryd rhan yn y broses o weld John, bachgen yn ei arddegau, yn trawsnewid i fod yn oedolyn, ac yn helpu i lywio fersiwn y dyfodol o John. |

| | |
|---|---|
| **Enw** | **Home - A VR Spacewalk** |
| **Gwefan** | https://store.steampowered.com/app/512270/Home__A_VR_Spacewalk/ |
| **Platfform/ Gofynion** | Angen VR Valve Index, HTC Vive neu Oculus Rift. |
| **Pris** | Am ddim |
| **Disgrifiad** | Gallwch chi daflu eich hun i'r gwagle 250 milltir uwchben y Ddaear yn y daith ofod VR arobryn hon a ysbrydolwyd gan raglen hyfforddi NASA a phrofiadau rhyfeddol y gofodwyr. Gyda Home, rydych chi'n rhan ganolog o'r stori, ac mae'n mynd â chi ar daith emosiynol a phersonol gan ddarparu profiadau sy'n brydferth, yn syfrdanol ac yn gofiadwy. |